

---

## Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Fideogynadledda drwy Zoom P Gareth Williams  
Dyddiad: Dydd Llun, 9 Hydref 2023 Clerc y Pwyllgor  
Amser: 13.30 0300 200 6565  
[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

### O bell – Pecyn Atodol

---

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

#### 4 Papurau i'w nodi

(13.40 – 13.45)

##### 4.3 Ymchwiliad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin i Allu Datganoli yn Whitehall

(Tudalennau 1 – 14)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-27-23 – Papur 9 – Cyflwyniad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin (PACAC)

##### 4.4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

(Tudalennau 15 – 19)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-27-23 – Papur 10 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5)

##### 4.5 Gohebiaeth â'r Gweinidog Newid Hinsawdd: Datblygiadau ar ôl y cynnig cydsynio ar y Bil Ynni

(Tudalennau 20 – 48)

Dogfennau atodol:



---

LJC(6)-27-23 – Papur 11 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-27-23 – Papur 12 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Medi 2023

#### **4.6 Gohebiaeth â'r Gweinidog Newid Hinsawdd: Bil Seilwaith (Cymru)**

(Tudalennau 49 – 79)

##### **Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-23 – Papur 13 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-27-23 – Papur 14 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Medi 2023

#### **4.7 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Busnes: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio**

(Tudalennau 80 – 81)

##### **Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-23 – Papur 15 – Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Busnes, 6 Hydref 2023

## **8 Ymchwiliad Llywodraethiant y DU-UE**

(14.00 – 14.20)

(Tudalennau 82 – 83)

##### **Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-23 – Papur 16 – Llythyr gan y Brif Weinidog Cymru, 6 Hydref 2023

# Tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin:

Gallu datganoli yn Whitehall

Medi 2023

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd gyloch gwaith eang sy'n cynnwys ystyried materion cyfansoddiadol, cysylltiadau rhynglywodraethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru ynghylch Biliau'r DU sy'n gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## Y cefndir

### Ein tystiolaeth

- Bydd ein cyflwyniad yn canolbwyntio ar ddwy o'r themâu yn eich galwad am dystiolaeth:
  - I ba raddau y mae Adolygiad Dunlop o Allu'r Undeb wedi'i roi ar waith a beth sydd i'w wneud o hyd?
  - Beth yw barn y sefydliadau datganoledig am allu datganoli yn Whitehall a pha ddull y maent yn ei ddefnyddio i adeiladu'r wybodaeth a'r gallu cyfatebol ar ran Gweinidogion a swyddogion eu gweinyddiaethau eu hunain?

### Adroddiad y Pumed Cynulliad

- Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y Pumed Cynulliad ymchwiliad ynghylch llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, gan gyhoeddi



adroddiad gyda naw argymhelliad ym mis Chwefror 2018.<sup>1</sup> Edrychodd yr ymchwiliad ar sut y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio, gan gynnwys gwaith helaeth ar ddeall datganoli yn Whitehall. Canfu fod gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatganoli yn Whitehall yn wael.

## Adolygiad Dunlop a chysylltiadau rhynglywodraethol

### Sylwadau cyffredinol

**3.** Mae'r berthynas rhwng llywodraethau wedi bod yn bwysig ers dechrau datganoli ond mae wedi dod yn fwy amlwg ers i'r DU adael yr UE. Nododd adroddiad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn 2018 fod angen gwelliant sylweddol yn y maes hwn. Argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gytundeb gyda'r Pwyllgor, a hynny er mwyn cefnogi'r gwaith craffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol. Derbyniwyd y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol cyntaf ym mis Ionawr 2019. Derbyniodd y Pwyllgor Gytundeb newydd wedi'i ddiweddarau ar gyfer y Chweched Senedd ym mis Tachwedd 2021<sup>2</sup>, a chafodd ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Rhagfyr 2021.<sup>3</sup> Yn unol â'r Cytundeb, ar 18 Gorffennaf 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol rhwng 2021 a 2023.<sup>4</sup>

**4.** Roedd cyhoeddi Adolygiad Dunlop yn gam cadarnhaol yn y cyfeiriad cywir tuag at wella cysylltiadau rhynglywodraethol. Fodd bynnag, ein hasesiad yw nad yw hyn eto wedi arwain at y math o newid sylweddol yr hoffem fod wedi'i weld, yn anad dim o'n safbwynt ni fel Pwyllgor seneddol sy'n ceisio craffu ar sut mae llywodraethau'n cydweithio, yn enwedig ar faterion deddfwriaethol.

**5.** Er y gallai fod gwelliannau wedi bod yn adrannau unigol Whitehall, at ei gilydd nid ydym yn credu bod digon o gynnydd wedi bod yn gyffredinol i wella'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o ddatganoli ar draws Whitehall, ac mae'r ddwy agwedd yn parhau i fod yn anghyson.

**6.** Er ein bod wedi clywed Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru yn gwneud sylwadau cadarnhaol am ymgysylltu â Gweinidogion y DU, rydym hefyd wedi clywed rhwystredigaeth gan

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd](#), Chwefror 2018 a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd: crynodeb o'r dystiolaeth](#), Mai 2018

<sup>2</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru](#), Tachwedd 2021

<sup>3</sup> [Y Cyfarfod Llawn](#), 15 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion [249-278]

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, [Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru: adroddiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer y cyfnod 2021 i 2023 Adroddiad trosolwg ar y cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2023](#), 18 Gorffennaf 2023

Lywodraeth Cymru ar sawl achlysur am yr anawsterau y maent wedi dod ar eu traws. Mae hyn yn cynnwys cael eu hysbysu'n hwyr am gyfarfodydd rhyngweinidogol,<sup>5</sup> diffyg presenoldeb gan yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol mewn cyfarfodydd rhyngweinidogol<sup>6</sup> a rhwystredigaeth mewn perthynas â Biliau'r DU sy'n cynnig darpariaethau mewn meysydd datganoledig (gweler ystyriaeth ddiweddarach yn y dystiolaeth hon).

**7.** Mae adroddiadau chwarterol ar gysylltiadau rhynglywodraethol gan Lywodraeth y DU yn ganolog i Whitehall, ac weithiau'n drysu rhwng cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol ac anffurfiol. Nid yw'r ysgrifenyddiaeth sefydlog annibynnol a gyhoeddwyd o ganlyniad i Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol 2022 wedi'i sefydlu eto, er gwaethaf ymrwymadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai hyn wedi digwydd cyn toriad yr haf.<sup>7</sup> Ysgrifenyddiaeth rynglywodraethol annibynnol oedd un o argymhellion Adolygiad Dunlop, ac mae'r broses datrys anghydfodau newydd yn dibynnu ar ei chreu.

**8.** Mae mwy na hanner y Grwpiau Rhyngweinidogol a restrwyd yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol bellach wedi'u sefydlu. Ceir amrywiaeth rhwng y Grwpiau Rhyngweinidogol o ran pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd a manylion y cyfathrebiadau. Mae rhai grwpiau, megis y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant, yn cwrdd yn rheolaidd, ond mae cyfathrebiadau'r cyntaf yn llawer manylach na rhai'r ail. Dim ond unwaith y mae eraill wedi cwrdd, er enghraifft y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Diogelwch ac Ymfudo a'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Twristiaeth. Ymddengys nad oes Grŵp Rhyngweinidogol mewn rhai meysydd polisi, er enghraifft diwylliant.

### **Cysylltiadau rhynglywodraethol ar Filiau'r DU sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig**

**9.** Tynnodd ein hadroddiad blynyddol 2021/22<sup>8</sup> sylw at y cynnydd sylweddol yn y defnydd o Filiau'r DU i gynnig deddfu mewn meysydd datganoledig, ein pryderon gyda'r dull hwn, a'n barn bod diffyg democrataidd wedi dod i'r amlwg. Mae cyfnod 2022/23 wedi gweld y duedd anffodus hon yn parhau. Mae ein Pwyllgor, a'r Senedd yn ehangach, yn treulio cryn dipyn o

---

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE](#), 17 Chwefror 2022

<sup>6</sup> [Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 27 Ebrill 2023

<sup>7</sup> Pwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Tŷ'r Cyffredin, [Tystiolaeth lafar: Cysylltiadau Rhynglywodraethol](#), 27 Mawrth 2023

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad Blynyddol 2021/22](#), Hydref 2022, paragraffau 20-32 a 48-59

amser yn craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau'r DU heb unrhyw allu gwirioneddol i ddylanwadu ar y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cael ei gwneud mewn meysydd datganoledig. O ganlyniad, rydym yn credu bod swyddogaethau'r Senedd yn cael eu hosgoi'n rhy aml.

**10.** Rydym yn cydnabod bod gan y Senedd benderfyniad i'w wneud ynghylch rhoi neu wrthod cydsyniad deddfwriaethol. Fodd bynnag, nid yw penderfyniad deuaidd – ie neu na – o ran cynnwys darpariaethau datganoledig mewn Bil gan y DU yn gwneud y tro yn lle craffu fesul llinell, y gallu i gyflwyno gwelliannau, clywed tystiolaeth a cheisio gwelliannau i Filiau a gyflwynir i'r Senedd.

**11.** Cafwyd sawl enghraifft hefyd lle dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi gweld un o Filiau'r DU (yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig) yn hwyr cyn ei gyhoeddi, er enghraifft mewn perthynas â Bil Protocol Gogledd Iwerddon,<sup>9</sup> y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio<sup>10</sup> a Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).<sup>11</sup>

**12.** Bu adegau hefyd pan na fu modd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddod i gytundeb ar rai darpariaethau, gan arwain at gyflwyno mwy nag un cynnig cydsyniad. Er enghraifft, mewn perthynas â Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, ni ddaethpwyd i gytundeb rhwng y llywodraethau ar rai darpariaethau; arweiniodd hyn at Lywodraeth Cymru yn cyflwyno dau gynnig yn gofyn am gydsyniad mewn perthynas â darpariaethau penodol a restrwyd ym mhob cynnig. Digwyddodd hyn ar gyfer dadleuon ar 18 Ionawr 2022 ac 1 Mawrth 2022, ac ar y ddau achlysur, dim ond un o'r cynigion a dderbyniwyd gan y Senedd.<sup>12</sup> Pasiodd Senedd y DU y Bil wedi hynny, gan gynnwys y darpariaethau hynny y gwrthododd y Senedd roi cydsyniad iddynt.

**13.** Ym mis Mawrth 2023, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y byddai disgwyl gweld anghydfodau'n digwydd, ac mai hanfod llawer o'r fframwaith yw osgoi anghydfodau a dod i gytundebau, ond bod y broses datrys anghydfod yn gam sylweddol ymlaen.<sup>13</sup> Wrth adrodd wedyn ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol, rydym wedi argymhell weithiau bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r camau y mae wedi'u cymryd i ddatrys gwahaniaethau barn lle maent yn bodoli gyda Llywodraeth y DU gan ddefnyddio'r prosesau datrys anghydfodau rhynglywodraethol newydd. Fodd bynnag, yn ôl

---

<sup>9</sup> [Llythyr gan Weinidog yr Economi](#), 27 Mehefin 2022

<sup>10</sup> [Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio](#), 25 Tachwedd 2022, paragraff 3

<sup>11</sup> [Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Llywydd](#), 5 Hydref 2022

<sup>12</sup> [Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#)

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [14 Mawrth 2023](#), Cofnod y Trafodion [17-18, 96]

ei hymatebion, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn gyndyn i ymgysylltu â'r broses neu ei defnyddio.<sup>14</sup>

**14.** Mewn tystiolaeth i ni ar 10 Gorffennaf 2023, awgrymodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, nad oedd proses datrys anghydfod yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn addas ar gyfer datrys materion yn ymwneud â Biliau unigol y DU oherwydd yr amserlenni ar gyfer craffu arnynt a'u hynt drwy Senedd y DU.<sup>15</sup> Fe wnaethom ni ofyn am eglurhad pellach ar y pwynt hwn<sup>16</sup> ac yn ei ymateb dywedodd wrthym:

*"Mae ffocws cychwynnol yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ar osgoi anghydfodau. Rydym yn gweithredu yn yr ysbryd hwnnw. Pan fo gennym bryderon am ddarn penodol o deddfwriaeth y DU, rydym yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU yn y lle cyntaf i sicrhau bod ein safbwyntiau'n cael eu deall, a'r nod yw ei chael i gymryd camau priodol i ddatrys y mater.*

*Nid yw'n wir na ellir defnyddio'r prosesau anghydfod yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol mewn perthynas â Biliau unigol y DU; fodd bynnag, byddai'r amserlennu cysylltiedig yn debygol o fod yn gymhleth. Weithiau gall fod yn hwyr iawn yn hynt Bil cyn iddi ddod yn amlwg na ellir dod i gytundeb ar lefel rynglywodraethol, ac er y gellir cynnal y prosesau anghydfod yn gyflym, nid ydynt yn diystyru gallu Senedd y DU i gynnal ac amserlennu busnes deddfwriaeth."*<sup>17</sup>

**15.** Hoffem hefyd dynnu eich sylw at ein trafodaeth ddiweddar o femorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â'r Bil Ynni. Ar 10 Gorffennaf 2023, buom yn cymryd tystiolaeth gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ynghylch y memorandwm.<sup>18</sup> Mynegodd bryder ynghylch y diffyg ymgysylltu â Llywodraeth y DU (gweler er enghraifft baragraffau 20–21 y trawsgrifiad). Fe wnaethom ni ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar y mater hwn<sup>19</sup> a chael ymateb sydd, mewn manau, yn gwrthod y datganiadau a wnaed gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.<sup>20</sup>

---

<sup>14</sup> Er enghraifft, gweler yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch Bil Banc Seilwaith y DU ([21 Tachwedd 2022](#)) a'r Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) ([24 Ebrill 2023](#))

<sup>15</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [10 Gorffennaf 2023](#), Cofnod y Trafodion [161-165]

<sup>16</sup> [Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 24 Gorffennaf 2023, Cwestiwn 2

<sup>17</sup> [Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#), 4 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 2

<sup>18</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [10 Gorffennaf 2023](#), Cofnod y Trafodion [3-68]

<sup>19</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Llythyr at Andrew Bowie AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net](#), 12 Gorffennaf 2023

<sup>20</sup> Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, [Llythyr gan Andrew Bowie AS, Gweinidog dros Niwclear a Rhwydweithiau](#), 24 Gorffennaf 2023

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar 12 Medi 2023.<sup>21</sup> Yn ystod y ddadl ar 12 Medi, dywedodd y Gweinidog:

*"Llywydd, yn anffodus, dyma Lywodraeth y DU nad yw eisiau gweithio gyda llywodraethau datganoledig, ac yn lle hynny mae'n credu bod prosesau ymgynghori a hysbysu yn fesurau diogelu boddhaol o'n cyfansoddiad. Rwy'n anghytuno'n sylfaenol â'r safbwynt hwnnw. Ni allwn fod yn gliriach fy mod eisiau gweithio ar sail ceisio dod i gytundeb i ddarparu rheoleiddio trawsffiniol priodol sydd ei angen ar ein diwydiant a'n dinasyddion i'n helpu i gyflawni sero net. Rwyf wedi dadlau'r achos i Lywodraeth y DU weithio gyda ni. Rwyf wedi gofyn i'r Bil gael ei oedi fel y gallwn gytuno ar ddatrysiaid sy'n parchu'r Senedd hon a'n cyfrifoldeb datganoledig cyfreithlon.*

*Yn olaf, rwyf wedi atgoffa Llywodraeth y DU o'u hymrwymiad datganedig eu hunain i gonfensiwn Sewel ac na fyddai'n briodol o dan unrhyw amgylchiadau i basio'r Bil hwn heb gydsyniad y Senedd."<sup>22</sup>*

**16.** Yn ddiweddarach yn y ddadl, dywedodd y Gweinidog hefyd:

*"Doedd gennym ni ddim testun llawn y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno. Cawsom ddarnau bach a rannwyd ar wahân, ond rhannwyd y testun llawn, sef 346 o dudalennau, y noson cyn iddo gael ei gyhoeddi. Ac mae bellach yn ddrwg-enwog yn Llywodraeth Cymru eich bod yn cael eich galw i siarad â Gweinidog Llywodraeth y DU am sgwrs 15 munud a rhaid i hynny ddigwydd am 6.30 p.m. ar noson benodol oherwydd eu bod yn amlwg ar fin cyhoeddi rhywbeth y bore wedyn ac maen nhw wedi anghofio dweud wrthy ch chi amdano."<sup>23</sup>*

**17.** Fodd bynnag, ar yr un diwrnod, yn ystod dadl ar gydsyniad y Bil Ardrethu Annomestig,<sup>24</sup> dywedodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:

---

<sup>21</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni](#), Medi 2023

<sup>22</sup> [Y Cyfarfod Llawn](#), 12 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [330-331]

<sup>23</sup> [Y Cyfarfod Llawn](#), 12 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [374]

<sup>24</sup> Dylid nodi mai barn y Pwyllgor ar y Bil hwn oedd y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cyflwyno ei Bil ei hun i Senedd Cymru, a deddfu ochr yn ochr, yn hytrach na defnyddio Bil y DU sy'n mynd drwy Senedd y DU; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu Annomestig](#), Mehefin 2023



*"Ac yng ngoleuni'r ddadl flaenorol, rwy'n credu, dylwn i gydnabod bod y profiad gyda'r darn penodol hwn o ddeddfwriaeth wedi bod yn un cadarnhaol iawn o ran y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Felly, roeddwn i eisiau rhoi hynny ar y cofnod, i ddangos y gellir ei wneud, ac rwy'n credu yn yr achos hwn, mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn, rwy'n gobeithio ar y ddwy ochr."*<sup>25</sup>

**18.** Mae'r ddwy enghraifft olaf hyn yn dangos darlun cymysg o ran ymgysylltu a hefyd bod cysylltiadau rhynglywodraethol yn amrywio yn dibynnu ar yr adrannau Whitehall dan sylw.

### **Ein hymgysylltiad â Gweinidogion y DU mewn perthynas â Biliau'r DU**

**19.** Rydym hefyd wedi mynegi ein pryderon ein hunain yn uniongyrchol i Weinidogion Llywodraeth y DU ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol gwael, ac wedi ceisio'u safbwynt ar yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn ddefnydd gormodol o Filiau'r DU i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig. Er enghraifft, fe wnaethom ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS, yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, ar 20 Gorffennaf 2022<sup>26</sup>, a chawsom ymateb ar 30 Awst 2022,<sup>27</sup> a oedd, er ei fod yn gymharol gadarnhaol, yn methu mynd i'r afael â materion yn fanwl. Gwnaeth yr ymateb y sylw a ganlyn hefyd:

*"This engagement is also important to identify where a UK government bill can include provisions within a devolved legislature's competence and **enable timely pragmatic solutions to policy challenges to deliver for people of Wales freeing up devolved legislatures time whilst respecting their legislative competence via the legislative consent process.**"*

**20.** Nid ydym yn rhannu'r teimlad a amlygir mewn print trwm (cafodd hyn ei gynnwys eto mewn gohebiaeth ddilynol gyda'i olynydd, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, y cyfeiriwn ati isod) gan nad mater i Lywodraeth y DU yw awgrymu sut mae'r Senedd yn defnyddio'i hamser na'r hyn y dylai ddeddfu yn ei gylch. Efallai bod y testun hwn yn amlygu diffyg dealltwriaeth ynghylch egwyddorion datganoli. Byddem hefyd yn ychwanegu, er gwaethaf y sylwadau cadarnhaol am y broses yn y llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol, fod ein hadroddiad ar femorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

---

<sup>25</sup> [Y Cyfarfod Llawn](#), 12 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [409]

<sup>26</sup> [Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau](#), 20 Gorffennaf 2022

<sup>27</sup> [Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau](#), 30 Awst 2022

wedi tynnu sylw at y diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar y Bil hwnnw (yr ydym hefyd yn tynnu sylw ato ym mharagraff 11 uchod).<sup>28</sup>

**21.** Yn dilyn ein gohebiaeth â'r Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS, fe wnaethom ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS yn gofyn a oedd y canllawiau a ddarparwyd ar ymgysylltu ar Filiau'r DU yn ffurfiol eu natur (yn debyg i ganllawiau ar ddatganoli er enghraifft).<sup>29</sup> Yn ei ymateb,<sup>30</sup> dywedodd wrthym fod canllawiau a chymorth wedyn yn cael eu haddasu i amgylchiadau penodol pob Bil, sy'n awgrymu nad oes proses ffurfiol ar waith ar draws Whitehall.

**22.** O ganlyniad i'n gohebiaeth â'r Gwir Anrhydeddus Michael Gove, cafodd ei wahodd gan y Pwyllgor i roi tystiolaeth i ni ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol. Fodd bynnag, rydym yn dal i aros am ymateb ffurfiol tua 7 mis yn ddiweddarach.<sup>31</sup>

### **Cysylltiadau rhynglywodraethol ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd**

**23.** Roedd ymadawiad y DU â'r UE yn golygu bod angen datblygu strwythurau domestig newydd i reoli'r cysylltiadau rhwng y llywodraethau ym meysydd y gyfraith, polisi a chysylltiadau rhyngwladol a oedd yn arfer cael eu llywodraethu neu eu cydgysylltu gan yr UE. Cytunwyd ar rai trefniadau newydd i wneud y gwaith hwn o ganlyniad i'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

**24.** Yn hanesyddol, roedd cydweithredu rhynglywodraethol mewn perthynas â'r UE, a chysylltiadau rhyngwladol, mewn dau goncordat fel rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ehangach y cytunwyd arno yn 2013 rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig.<sup>32</sup> Cynlluniwyd Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, ond ni chytunwyd arno eto. O'r herwydd, ni allwn wneud sylw ynghylch i ba raddau y byddai'n disodli'r trefniadau sydd ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth 2013 i adlewyrchu'r cyd-destun ers gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol i drafodaeth eich Pwyllgor ynghylch yr hyn sydd eto i'w ddatrys.

---

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Chwefror 2023](#), paragraff 47

<sup>29</sup> [Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol](#), 4 Tachwedd 2022

<sup>30</sup> [Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol](#), 12 Ionawr 2023

<sup>31</sup> [Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol](#), 14 Mehefin 2023 (llythyr diweddaraf)

<sup>32</sup> Llywodraeth y DU, [Devolution: Memorandum of Understanding and Supplementary Agreements](#), Hydref 2013

**25.** Mae Fframweithiau Cyffredin wedi dod i'r amlwg fel mecanwaith allweddol ar gyfer datblygu a chydgyssylltu polisi a deddfwriaeth ar draws Llywodraethau yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mewn ymateb i'n hadroddiad diweddar ar Fframweithiau Cyffredin<sup>33</sup>, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros y Cyfansoddiad fod potensial i'r fframweithiau fod yn "n fecanweithiau llywodraethu parhaus, hyblyg a chynyddol arwyddocaol ar gyfer y meysydd polisi a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfraith yr UE"<sup>34</sup>. Rydym yn nodi bod y fframweithiau cyffredin, ar y cyfan, wedi bod yn enghraifft gadarnhaol o weithio rhynglywodraethol rhwng swyddogion a Gweinidogion, gydag enghreifftiau cadarnhaol o wneud penderfyniadau ar y cyd. Er enghraifft, mae adroddiad Llywodraeth Cymru i'r Senedd ar gysylltiadau rhynglywodraethol rhwng 2021 a 2023 yn nodi gwaith ar y Fframwaith Cyffredin Caffael Cyhoeddus fel strwythur sy'n gweithio'n dda<sup>35</sup>. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhybuddio am enghreifftiau o adrannau Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniadau y tu allan i strwythurau'r Fframweithiau Cyffredin, felly'n osgoi'r prosesau ar gyfer cydgysylltu oddi mewn iddynt. Nodwyd hyn yn arbennig mewn perthynas â fframweithiau ym meysydd yr amgylchedd, bwyd a materion gwledig. Gobeithiwn mai enghreifftiau prin yw'r rhain a bod modd gwireddu potensial llawn y Fframweithiau Cyffredin i wella ymwybyddiaeth o ddatganoli a chydweithio rhwng llywodraethau.

**26.** Bydd yr ymrwymiad hwn i holl adrannau Llywodraeth y DU ddefnyddio proses y fframweithiau cyffredin yn bwysicach fyth yng nghyd-destun newidiadau i'r corff o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n sail i feysydd polisi a lywodraethir gan y fframweithiau o dan *Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir* (Dirymu a Diwygio) 2023. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol<sup>36</sup> bod gwaith wedi'i wneud drwy'r Fframwaith Cyffredin Nwyon wedi'u Fflworeiddio ar ddatblygu Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) 2023 sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Bydd gwaith o'r fath yn bwysig o ystyried y diffyg mecanwaith cydsynio ffurfiol yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir ar gyfer amgylchiadau pan fo Gweinidog y DU yn dymuno arfer pŵer dirprwyedig mewn maes datganoledig. Hyd yn hyn, ceir diffyg eglurder o hyd ynghylch unrhyw broses gydsynio anffurfiol a allai fod wedi'i chytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU<sup>37</sup>.

**27.** Mae gwaith craffu'r Pwyllgor ar gytundebau rhyngwladol wedi rhoi gwybodaeth newydd am ffyrdd rhynglywodraethol o weithio ar rwymedigaethau rhyngwladol. Mae Llywodraeth

---

<sup>33</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Fframweithiau Cyffredin, Mai 2023

<sup>34</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Mehefin 2023

<sup>35</sup> Llywodraeth Cymru, **Cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru: adroddiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer y cyfnod 2021 i 2023**, 18 Gorffennaf 2023

<sup>36</sup> Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 1 Medi 2023

<sup>37</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 2

Cymru wedi ein hysbysu am lefel ei chyfranogiad yn y gwaith o negodi a gweithredu cytundebau rhyngwladol; a oedd ganddi wybodaeth flaenorol bod cytundeb wedi'i gwblhau; lle mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y pedair llywodraeth ar gyfer rhai categorïau o gytundebau rhyngwladol; y berthynas rhwng cytundebau rhyngwladol lluosog a mecanweithiau domestig; sut mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'i rhwymedigaethau rhyngwladol; a lle mae ganddi farn wahanol i Lywodraeth y DU ar gymhwysedd deddfwriaethol.

**28.** Rydym wedi nodi dull amrywiol ar draws adrannau Whitehall o ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig ar gytundebau sydd o fewn meysydd polisi datganoledig neu sydd â goblygiadau sylweddol iddynt. Cefnogir y farn hon gan Lywodraeth Cymru, a ddywedodd mewn ymateb i un arall o'ch ymchwiliadau ym mis Chwefror 2023:

*"...it is not possible to say with certainty whether the lead UK Government department always notifies relevant Welsh Government departments, and if so at what stage it does so. This is something that we propose to consider further, together with the UK Government and the other Devolved Governments, when the overall 'Devolution Memorandum of Understanding and Supplementary Agreements' document is reviewed in light of the Inter-Governmental Relations Review outcome."<sup>38</sup>*

**29.** Enghraifft gyffredinol yw ei bod yn ymddangos bod ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig ynghylch negodiadau masnach rhyngwladol wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, hyd yn oed pan nad yw'n bosibl cytuno ar safbwyntiau a blaenoriaethau negodi terfynol. I'r gwrthwyneb, mae ymgysylltu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn rhai masnach yn fwy amrywiol, ac, yn anffodus, mae ein hadroddiadau craffu<sup>39</sup> yn aml yn nodi bod gwybodaeth ar goll neu'n annigonol ynghylch ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r llywodraethau datganoledig.

**30.** Er gwaethaf hyn, rydym wedi canfod enghreifftiau o arfer gorau<sup>40</sup> ac mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod buddiannau'r llywodraethau datganoledig mewn cytundebau rhyngwladol, gan ddisgrifio trafodaethau rhynglywodraethol fel rhai hollbwysig ar gyfer y dyfodol.<sup>41</sup>

---

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, yr ymchwiliad Craffu ar Gytuniadau Rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol eraill yn yr unfed ganrif ar hugain, [Tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru](#) (SIT 27)

<sup>39</sup> [Cytundebau Rhyngwladol](#), tudalen y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

<sup>40</sup> Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, yr ymchwiliad Craffu ar Gytuniadau Rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol eraill yn yr unfed ganrif ar hugain, [Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#) (SIT 22)

<sup>41</sup> Llywodraeth y DU, [Ymateb y Llywodraeth i adroddiad Is-bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi: Treaty Scrutiny, Working Practices](#)

## Ffyrdd o wella dealltwriaeth o ddatganoli

**31.** Rydym yn cydnabod y bydd llywodraethau'n anghytuno o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, yn ein barn ni, po orau yw'r ddealltwriaeth o ddatganoli a'r hyn y mae'n ei olygu'n ymarferol, y mwyaf tebygol yw hi y bydd anghytuno'n digwydd yn llai aml, a'i fod yn cael ei ddatrys yn gynt pan fydd yn digwydd. Mae'n werth cofio hefyd nad yw datganoli'n aros yn ei unfan a bod angen i adrannau Whitehall gadw i fyny â newidiadau i'r setliad datganoli. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd gan rai adrannau well dealltwriaeth o ddatganoli nag eraill, er enghraifft mewn adrannau lle bu ymgysylltu o ganlyniad i'r angen i drafod materion polisi'r UE tra oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth.

**32.** Credwn y gellid gwella dealltwriaeth o ddatganoli yn y ffyrdd a nodir isod:

### Senedd y DU yn mabwysiadu safbwynt pendant ar Gonsensiwn Sewel

**33.** Wrth roi tystiolaeth i ni ar 10 Gorffennaf 2023, trafododd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ei bryderon ynghylch Gonsensiwn Sewel.<sup>42</sup> Yn benodol, nododd fod angen statws cyfansoddiadol llawer cryfach i Sewel, gan ddweud hefyd yng nghyd-destun sut i ddatrys anghydfodau:

*"The crux of the problem with Sewel is either the lack of codification of Sewel—the lack of clarity as to what it means, and the diverse ways in which it is treated—. The fact that we don't have a common position any more, I think, in terms of what Sewel amounts to, is really the core of the problem. Now, maybe that would be the mechanism, by taking all the disputed legislation we've had, collectively, and trying to use the disputes process to try and resolve that. But, can a disputes process resolve what is, ultimately, a political process of a constitutional disagreement that doesn't have a real justiciable status?"<sup>43</sup>*

**34.** Cyflwynodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Bumed Senedd dystiolaeth i Bwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin i lywio ei ymchwiliad i weithdrefn Tŷ'r Cyffredin a'r cyfansoddiad tiriogaethol. Yn y dystiolaeth honno, dywedodd:

---

<sup>42</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [10 Gorffennaf 2023](#), Cofnod y Trafodion [161-189 a 240-250]

<sup>43</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [10 Gorffennaf 2023](#), Cofnod y Trafodion [164]

*"Efallai nad yw'n syndod felly bod Confensiwn sy'n seiliedig ar un cyfraniad i ddadl seneddol wedi methu â ffurfio sail foddhaol, hirdymor ar gyfer y berthynas rhwng y deddfwrfeydd datganoledig a Senedd y DU.*

*Credwn felly y dylai Senedd y DU nodi ei chyfrifoldebau a'i dealltwriaeth yn glir o ran cymhwyso Confensiwn Sewel a'i chymhwysiad ymarferol, gan gynnwys ystyr 'ddim fel arfer'. (...)*

*Yn ein barn ni, rhaid cael proses fwy cynhwysfawr a thryloyw sy'n cynnwys mecanwaith ar gyfer sicrhau bod safbwyntiau'r Senedd (a Llywodraeth Cymru) wedi'u nodi'n glir ac ar bwytiau hysbys ym mhroses deddfwriaethol Senedd y DU. Nid ydym o'r farn y byddai'n briodol i'r mecanwaith hwn ddibynnu ar ddehongliad Llywodraeth y DU o farn y Senedd neu Lywodraeth Cymru."<sup>44</sup>*

**35.** Credwn fod angen ateb y pwyntiau a wnaed gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, gan eu bod yn berthnasol o hyd.

**36.** Weithiau, ar ddechrau tymor yr hydref pan fydd Senedd y DU yn mynd i mewn i'w thoriad cynadleddau, gall y ffaith nad yw amserlenni seneddol yn alinio olygu na all pwyllgorau Senedd Cymru drafod ac adrodd mewn pryd i gyd-fynd â dadl cynnig cydsyniad yn Senedd Cymru, gydag amseriad y ddadl ei hun yn cael ei bennu gan amserlennu trafodion y Bil drwy Senedd y DU. Ar adegau gall ymddangos nad yw adrannau Llywodraeth y DU yn barod i ystyried y broses cydsyniad deddfwriaethol wrth amserlennu Biliau drwy Senedd y DU, neu nad ydynt yn ymwybodol o sut mae'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn gweithredu yn Senedd Cymru. Credwn fod angen i'r sefyllfa hon newid.

**37.** Yn gysylltiedig â hyn, rydym hefyd yn credu y dylai fod mwy o dryloywder ynghylch sut mae'r broses gydsynio yn cyd-fynd â'r amserlen seneddol ar gyfer Biliau unigol y DU. Er y gallai hyn olygu bod angen i Lywodraeth y DU ddarparu gwybodaeth, o ystyried y dylai cydsyniad fod yn ffactor yn ei gwaith cynllunio deddfwriaethol, byddem yn gobeithio na fyddai hyn yn peri problemau.

**38.** Ym mis Mawrth 2023, fe wnaeth y Farwnes Drake, Cadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, ein [hysbysu](#) fod dogfen Busnes Tŷ'r Arglwyddi bellach yn rhoi gwybodaeth lawnach a mwy amlwg ynghylch pryd mae cydsyniad yn yr arfaeth neu'n destun dadl a phryd y mae wedi'i

---

<sup>44</sup> Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mawrth 2021

roi neu ei atal. Croesawyd y newid hwn yn fawr a gobeithiwn y bydd hefyd modd rhoi newidiadau cadarnhaol eraill ar waith.

**39.** Ers 2021, bu naw achlysur pan wrthododd y Senedd roi cydsyniad, ond bod Senedd y DU wedi deddfu serch hynny.<sup>45</sup>

**40.** Credwn na ddylid ystyried problemau o ran ymarferoldeb y broses cydsyniad deddfwriaethol fel mater i'r Senedd yn unig, ond yn hytrach fel mater o bryder i Whitehall a Senedd y DU, o ystyried ei phwysigrwydd i weithrediad effeithiol cyfansoddiad y DU a'r fframwaith cyfansoddiadol presennol.

**41.** Byddai sylfaen gyfansoddiadol fwy cadarn ar gyfer Confensiwn Sewel, wedi'i seilio ar broses sydd wedi'i diffinio'n glir ac sy'n cael ei deall gan bawb, â'r potensial i wella'r ddealltwriaeth o ddatganoli yn Whitehall, gan roi cymhelliad i sicrhau ei fod yn ffactor wrth gynllunio gwaith yn adrannau Llywodraeth y DU a Senedd y DU, a hynny ym mhob rhan o broses deddfwriaethol y DU.

### **Anghytuno ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol**

**42.** Fel yr ydym eisoes wedi cyfeirio ato uchod, mae'n ymddangos i ni fod peth ansicrwydd ynghylch i ba raddau y mae modd defnyddio'r broses datrys anghydfod sy'n deillio o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol i ddatrys anghytuno ynghylch Biliau unigol y DU. Fodd bynnag, mae un agwedd y credwn sy'n haeddu ystyriaeth benodol yn ymwneud ag anghydfodau ynghylch materion cymhwysedd deddfwriaethol. Os na all y strwythurau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd ar eu ffurf bresennol ddatrys anghydfod ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol ar Filiau penodol y DU, byddai angen canfod mecanwaith newydd. Fan leiaf, dylai fod yn ofynnol i lywodraethau gyhoeddi datganiad yn amlinellu'r meysydd anghydfod y gall Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig eu trafod cyn cwblhau cyfnodau diwygio Bil.

### **Adolygu a diweddarau'r Canllawiau ar Ddatganoli yn rheolaidd<sup>46</sup>**

**43.** Nid yw'n ymddangos bod y Canllawiau ar Ddatganoli wedi'u diweddarau ers 2019 ac eto maent yn allweddol o ran helpu gweision sifil ar draws Whitehall i ddeall datganoli. Rydym yn gofyn felly:

---

<sup>45</sup> Ymchwil y Senedd, Confensiwn Sewel: Beth sy'n digwydd i gyfreithiau'r DU y mae'r Senedd yn eu gwrthod?, Gorffennaf 2023. Ers cyhoeddi'r erthygl, mae'r Senedd wedi gwrthod rhoi cydsyniad ar gyfer tri Bil y DU arall.

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, Chwefror 2018, gweler argymhelliad 4



- Beth yw'r prosesau sydd ar waith yn y Gwasanaeth Sifil ar gyfer diweddaru'r rhain?
- Beth yw'r prosesau ar gyfer sicrhau y cânt eu dosbarthu a'u defnyddio?
- Pryd fydd y Canllawiau ar Ddatganoli yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r Fframweithiau Cyffredin a datblygiadau ynghylch *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*? Er enghraifft, nid yw'r dogfennau fframweithiau cyffredin wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r strwythurau newydd y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

**44.** Fel yr ydym wedi tynnu sylw ato uchod, cafwyd achosion lle mae ymgysylltiad Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru wedi bod yn hwyr iawn mewn amgylchiadau lle mae darpariaeth mewn maes datganoledig i'w chynnwys yn un o Filiau'r DU. Mae'n parhau i fod yn aneglur i ni a yw Rhan 2 o'r Canllaw ar Ddatganoli<sup>47</sup>, sy'n ymdrin â chynnwys Bil Senedd y DU, yn cael ei dilyn yn llawn. Credwn felly y byddai'n fuddiol ystyried i ba raddau y mae'r Canllaw ar Ddatganoli penodol hwn yn cael ei ddefnyddio a pha mor effeithiol y mae wedi bod.

**45.** Credwn hefyd y dylid dilyn amserlen ymgysylltu glir ar gyfer holl Filiau'r DU sy'n cynnwys darpariaeth ddatganoledig. Dylid cynnwys gwybodaeth fanwl o'r fath mewn diwygiadau i'r Canllaw ar Ddatganoli y cyfeiriwn ato uchod, ochr yn ochr â diweddariadau angenrheidiol i adlewyrchu canlyniad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

### **Gweinidogion y DU yn ymgysylltu â Phwyllgorau'r Senedd**

**46.** Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth, mae gan Weinidogion y DU hanes cymysg o ran ymgysylltu â Phwyllgorau'r Senedd yn gyffredinol. Gall fod yn anodd sicrhau presenoldeb Gweinidogion mewn sesiynau tystiolaeth yn y Senedd, gyda rhai eithriadau. Rydym yn ymwybodol bod rhai Pwyllgorau wedi nodi bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi'i gynnig iddynt pan oeddent wedi gofyn am Weinidog o Adran benodol.

**47.** Fel y soniwyd uchod, rydym wedi gwahodd y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i roi tystiolaeth i ni ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar ddau achlysur, unwaith ym mis Chwefror 2023 a thrwy nodyn atgoffa ym mis Mehefin 2023. Er y cydnabuwyd yr ail lythyr, nid ydym wedi cael ymateb ffurfiol eto.

---

<sup>47</sup> [Devolution Guidance Note: Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales](#), diweddardwyd ddiwethaf 20 Ebrill 2018



**48.** Fodd bynnag, roedd yr Arglwydd Bellamy yn fodlon ymddangos gerbron y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022 ac roedd y sesiwn dystiolaeth yn arbennig o ddefnyddiol i ni, gydag ymgysylltiad yn parhau wedyn drwy ohebiaeth.

# Eitem 4.4

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 5)

### Y BIL FFYNIANT BRO AC ADFYWIO

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio ('y Bil') yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022. Mae'r Bil ar gael yma [Levelling-up and Regeneration Bill - Parliamentary Bills - UK Parliament](#)
3. Gosodais [LCM ar gyfer y Bil](#) fel y'i cyflwynwyd ar 28 Medi, [LCM diwygiedig ar 25 Tachwedd](#), [LCM Atodol \(SLCM\) ar 30 Tachwedd 2022 \(Rhif 2\)](#), [SLCM ar 27 Ebrill 2023 \(rhif 3\)](#) ac [SLCM ar 16 Awst 2023 \(rhif 4\)](#).
4. Fe welwch y Bil fel y cafodd ei wella yn y Pwyllgor (24 Mai 2023) yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3155/publications>
5. Ar 4 Gorffennaf 2023 a 7 Gorffennaf 2023, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud â Rhan 1 (Cenadaethau Ffyniant Bro), Pennod 1 o Ran 3 (Data Cynllunio) a Rhan 6 (Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol).
6. Gosododd SLCM (No.4) ar 16 Awst 2023 i roi sylw i'r gwelliannau i Ran 1 (Cenadaethau Ffyniant Bro) a Rhan 7 (Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol). Gosododd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei adroddiad ar SLCM (rhif 4) ar 29 Medi 2023. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymateb i'r adroddiad hwnnw cyn dadl y Cyfarfod Llawn ar gydsyniad deddfwriaethol, y disgwylir iddi gael ei chynnal ar 17 Hydref 2023.
7. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd ar gael yn <https://bills.parliament.uk/bills/3155/publications>

### Amcanion Polisi

8. Yr amcan polisi mae Llywodraeth y DU wedi'i ddatgan yw gwrthdroi'r anghyfartalwch rhwng rhannau gwahanol o'r DU drwy rannu cyfleoedd yn fwy cyfartal. O dan yr amcan hwn, mae gan y Bil bedwar amcan cyffredinol:
  - i. Rhoi dyletswydd ar Lywodraeth y DU i nodi'r cynnydd mae angen ei wneud tuag at gyflawni cenadaethau ffyniant bro a lleihau anghyfartalwch rhwng rhannau gwahanol o'r Deyrnas Unedig, ac adrodd ar y cynnydd hwnnw;
  - ii. Creu fframwaith modern i gefnogi datganoli pwerau yn yr oes fodern sydd ohoni yn y ffordd fwyaf radical posibl, drwy greu model newydd ar gyfer awdurdodau sir i gefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth ffyniant bro Llywodraeth y DU sy'n nodi 'erbyn 2030 bydd pob rhan o Loegr sy'n dymuno hynny wedi cael cytundeb

datganoli gyda phwerau ar y lefelau uchaf o ddatganoli, neu'n agos at hynny, a setliad ddatganoli symlach ar gyfer y tymor hir';

- iii. Cyflwyno set newydd o bwerau ar gyfer awdurdodau lleol i adfywio eu trefi, drwy arwerthiannau rhentu ar y stryd fawr a diwygiadau i ddeddfwriaeth prynu gorfodol, i gefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth ffyniant bro Llywodraeth y DU sy'n nodi 'erbyn 2030 bydd balchder mewn lle, er enghraifft, boddhad pobl ar ganol eu trefi a chyfranogiad yn y diwylliant a'r gymuned leol, wedi codi ym mhob rhan o'r DU, gyda'r bwch rhwng yr ardaloedd gorau ac ardaloedd eraill yn cau'; a
- iv. Creu system gynllunio sy'n sicrhau cartrefi harddach a gwyrddach, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig a'r gefnogaeth ddemocrataidd mae cymdogaethau am eu gweld ac yn eu haeddu.

### **Crynodeb o'r Bil**

9. Rhoddwyd crynodeb o'r Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) diwygiedig gwreiddiol a osodwyd ar 25 Tachwedd 2022.
10. Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu cenadaethau ffyniant bro ac ar gyfer adrodd ar gynnydd eu cyflawni; ynghylch democratiaeth leol; ynghylch cynllunio gwlad a thref; ynghylch Ardoll Seilwaith Cymunedol; ynghylch gosod Ardoll Seilwaith; ynghylch Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol rhai cydsyniadau a chynlluniau; ynghylch adfywio; ynghylch prynu tir dan drefniadau gorfodol; ynghylch gwybodaeth a chofnodion mewn perthynas â thir, yr amgylchedd neu dreftadaeth; ynghylch darparu ar gyfer trwyddedau palmant parhaol; ynghylch llywodraethu Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig; ynghylch crwydraeth a chardota; ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.
11. Mae rhagor o wybodaeth am y Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd <https://senedd.cymru/media/aekd01xo/lcm-ld15356-w.pdf>

### **Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Rhif 4)**

12. Ar 28 Medi 2023, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'w hystyried yng Nghyfnodau Terfynol Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud â Rhan 6 (Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol). Bydd y gwelliannau hyn yn effeithio ar ddarpariaethau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

### **Gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.**

#### Darpariaethau ynghylch y Cynllun Gwella Amgylcheddol

#### *Gwelliant 104*

13. Mewnosododd Gwelliant 104 gyfeiriad yng nghymal 143 (yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod y Pwyllgor) at y "cynllun gwella amgylcheddol" cyfredol (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021). Effaith y gwelliant hwn fyddai rhoi

dyletswydd ar Weinidogion Cymru (fel “awdurdod priodol”) i orfod ystyried y Cynllun Gwella Amgylcheddol cyfredol (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021) wrth wneud rheoliadau Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol wrth weithredu ar eu pen eu hunain neu gyda’i gilydd.

14. Cafodd trafodaethau eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y ddarpariaeth hon a gynigir. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth Lywodraeth y DU bod y ddarpariaeth sy’n cyfateb yng Nghymru i’r “polisi adnoddau naturiol cenedlaethol” wedi’i darparu gan adran 9 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod gwelliant 104 yn adlewyrchu hynny, ond anghofwyd gwneud hynny ar y pryd a chytunwyd ar welliant 104 yn ystod y Cyfnod Adrodd.
15. Mae’r trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt ers hynny ac mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cynnig yn lle Gwelliant 90 yr Arglwyddi i gywiro hyn.

#### *Cynnig yn lle Gwelliant 90 yr Arglwyddi*

